# Ffeithlen Pensiwn Newydd y Wladwriaeth – Cyflogwyr: Dod ac eithrio i ben ar gyfer cynlluniau pensiwn Budd-dal Diffiniedig sector breifat

Adran Gwaith a Phensiynau

Bydd cyflwyniad Pensiwn newydd y Wladwriaeth o 6 Ebrill 2016 yn dosbarthu Pensiwn y Wladwriaeth gliriach ar gyfer pensiynwyr y dyfodol.

## Dod â Phensiwn sylfaenol y Wladwriaeth i ben

Mae dod â Phensiwn sylfaenol y Wladwriaeth i ben wedi dod â diwedd i eithrio.

## Pa gyflogwyr a effeithir gan ddiwedd eithrio?

Dim ond ar y cyflogwyr hynny sy'n noddi cynllun pensiwn budd-dal diffiniedig wedi eithrio agored, e.e. cynllun yn berthnasol i gyflog, er enghraifft cynllun yn berthnasol i gyflog hyd at 5 Ebrill 2016 sydd wedi ei amlinelli yn y ffeithlen hon. Mae yna o gwmpas 2,500 o gyflogwyr o'r fath yn y sector breifat. Ni effeithir ar gyflogwyr sy'n noddi cynllun budd-dal diffiniedig sydd ddim wedi eithrio a'r rhai sy'n darparu pensiwn gweithle cyfraniad diffiniedig (er enghraifft, o dan gofrestriad awtomatig).

## Beth mae hyn yn ei olygu i gyflogwyr a oedd yn noddi cynlluniau pensiwn wedi eu heithrio o 6 Ebrill 2016

- Mae cyflogwyr a oedd yn noddi cynlluniau wedi eu heithrio a'u gweithwyr sy'n aelodau cynllun yn derbyn ad-daliad o'u cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae hyn yn ostyngiad o 3.4% ar gyfer cyflogwyr ac yn 1.4% ar gyfer gweithwyr (ar gyfran o enillion). Nid yw gweithwyr sydd wedi eithrio yn adeiladu dim neu bron ddim o Bensiwn ychwanegol y Wladwriaeth.
- O fis Ebrill 2016, byddwch chi a'ch gweithwyr yn talu'r gyfradd safonol (dosbarth 1) o gyfraniadau Yswiriant Gwladol yn lle'r gyfradd wedi eithrio. Cyfradd safonol cyflogwr ar hyn o bryd yw 13.8% o holl enillion uwchben y trothwy eilaidd ar gyfer holl weithwyr, ni fyddwch mwyach yn cael yr ad-daliad Yswiriant Gwladol o 3.4%.

## Dylai cyflogwyr:

- Gwirio gyda'u darparwr cyflogres neu Adnoddau Dynol p'un ai os yw eich cynllun pensiwn wedi eithrio.
- Ystyried sut y bydd diwedd eithrio yn effeithio ar eich cynllun a sut y bydd eich cynllun efallai yn gweithredu nawr. Fel cyflogwr sector preifat, mae gennych yr opsiwn i wneud newidiadau i'ch cynllun i wrthbwyso'r ychwanegiad mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwr.
- Trafod gyda'ch Ymddiriedolwyr pensiwn neu gynghorwyr pensiwn, unrhyw newidiadau yr hoffech eu gwneud. Fel gyda holl newidiadau rydych yn wneud i'ch cynllun mae'n rhaid i chi ymgynghori â'ch aelodau. Yn wahanol i newidiadau eraill i'ch cynllun, mae'r Ddeddf Pensiynau 2014 yn gadael i chi wneud newidiadau cyfyngedig i'ch cynllun heb gytundeb ymddiriedolwr ac aelod. Gelwir hyn weithiau yn 'ddiystyru statudol'. Bydd eich ymgynghorydd pensiynau yn gallu eich helpu ymhellach.
- Os ydych yn cyflwyno Diweddariad Blwyddyn Diweddarach drwy'r system Gwybodaeth Amser Cywir am gyfnod cyn 6 Ebrill 2016 gwnewch yn siŵr bod eich Rhif Eithrio Cynllun yn gywir. Bydd hyn yn sicrhau y gall eich cynllun gael ei hadnabod yn gywir pan fydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn rhedeg y 'sgan cau' ar ôl 6 Ebrill 2016 i gau holl gyfnodau agored o waith wedi ei eithrio ar gofnodion Yswiriant Gwladol eich gweithwyr.
- Os nad ydych wedi gwneud eisoes, meddwl ynglŷn â sut i gyfathrebu'r newidiadau rydych angen eu gwneud (e.e. cynyddiadau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol) a sut i basio gwybodaeth i'ch gweithwyr ynglŷn â beth mae diwedd eithrio yn ei olygu iddynt hwy. Mae hyn yn debygol o gynnwys adolygu eich llyfrynnau aelod a dogfennau eraill.
- Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi ffeithlen gweithiwr i'ch helpu i wneud hyn.

## Ple i fynd i gael gwybod mwy:

- **Ymgynghorwr pensiynau / ymddiriedolwyr cynllun**
  Siaradwch gyda'ch ymgynghorydd pensiynau neu Ymddiriedolwyr cynllun i gael gwybod sut effeithir ar eich cynllun ac i archwilio eich opsiynau.
- **Hysbysiad ar-lein Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi:**
  Hysbysiad Cyflogwr – wedi ei gyhoeddi chwe gwaith y flwyddyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gyflogwyr ar bynciau ac achosion a allai effeithio arnynt.

  Hysbysiad Cyfri'n ôl – hysbysiad i ddarparwyr pensiwn yn rhoi gwybodaeth yn dilyn eithrio'n dod i ben ym mis Ebrill 2016.
- **Gwefan GOV.UK**
  Gwybodaeth sylfaenol ar y canllaw Pensiwn newydd y Wladwriaeth: **www.gov.uk/new-state-pension**

  Gwybodaeth fwy manwl ar y polisi:
  **www.gov.uk/government/policies/state-pension-simplification**

Cyllid & Tollau EM